Briff Ymchwil

# Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd: Adroddiad Monitro - 16 Ebrill 2018

**Paratowyd ar gyfer y Pwyllgor Materion Allanol**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Joseph Champion, Manon George a Nia Moss**
Dyddiad: **Ebrill 2018**
Rhif Papur: **18-039**

## Cysylltwch â ni

**Nia Moss**
**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

: **0300 200 6313**
: **Nia.Moss@Cynulliad.Cymru**
: **seneddymchwil.blog**
: **@SeneddYmchwil**
: **Cynulliad.Cymru/Ymchwil**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

# Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd: Adroddiad Monitro - 16 Ebrill 2018

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

# 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau sy'n ymwneud â Thrafodaethau Erthygl 50 ynghylch ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd ers 8 Mawrth. Ers llunio'r adroddiad diwethaf o'r gyfres hon, mae'r DU a'r UE wedi dod i gytundeb gwleidyddol ar y cyfnod pontio ac wedi cyhoeddi fersiwn bellach o destun cyfreithiol drafft y Cytundeb Ymadael. Fel rhan o'r cyfnod pontio y cytunwyd arno, bydd y DU yn parhau i ddilyn rheolau a rheoliadau'r UE ac yn parhau'n rhan o'r undeb tollau a'r farchnad sengl, tan fis Rhagfyr 2020.

Cyhoeddodd y Cyngor Ewropeaidd ei ganllawiau trafod ar ddatganiad gwleidyddol ar gyfer perthynas â'r UE yn y dyfodol, ar 23 Mawrth. Mae'r canllawiau hyn yn sail ar gyfer ail gam y trafodaethau. Amlinellwyd safbwynt y DU yn areithiau'r Prif Weinidog ym Munich ac yn Mansion House ar 17 Chwefror a 2 Mawrth (gweler **Adroddiad monitro 8 Mawrth**).

Yn dilyn methiant i gyrraedd cytundeb ar ddiwygiadau i *Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael),* Llywodraeth y DU, ar 21 Mawrth, pasiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru *Fil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru),* sy'n ceisio cadw cymhwysedd deddfwriaethol dros ddeddfwriaeth yr UE mewn meysydd o gymhwysedd datganoledig yng Nghymru. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cyhoeddi rhestr o 24 o feysydd y mae'n teimlo y bydd angen fframweithiau deddfwriaethol cyffredin ar draws y DU ar ôl Brexit.

Mae'r papur hwn yn rhoi:

– Crynodeb o'r datblygiadau diweddaraf, y dogfennau a'r ddeddfwriaeth a gyhoeddwyd;

– Dadansoddiad o'r materion allweddol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol ("y Pwyllgor"); a

– Chrynodeb o ymateb Llywodraeth Cymru i'r datblygiadau diweddaraf.

## Crynodeb o'r datblygiadau

Ar 8 Mawrth, cyfarfu'r Cydbwyllgor Gweinidogion (JMC (EN)), am yr ail dro mewn pythefnos, i drafod cytundeb posibl ar ddiwygiadau i'r darpariaethau datganoli yn y Bil Ymadael. Yn dilyn hynny **cyhoeddwyd Hysbysiad a oedd yn amlinellu canlyniad** y cyfarfod.

Ar 9 Mawrth cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei **Dadansoddiad Fframweithiau**, sef ei dadansoddiad o'r mannau lle mae'n ystyried bod cyfraith yr UE yn gorgyffwrdd â chymhwysedd wedi'i ddatganoli yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. **Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r dadansoddiad** ar 14 Mawrth.

Ar 12 Mawrth **ymatebodd Llywodraeth Cymru i Ddatganiad y Gwanwyn Llywodraeth y DU**, gan dynnu sylw y bydd yn cael £21m o arian canlyniadol drwy Fformiwla Barnett ar gyfer 2018-19 o ganlyniad i'r £3 biliwn a gyhoeddwyd yng Nghyllideb yr Hydref i baratoi ar gyfer Brexit.

Ar 15 Mawrth, ysgrifennodd Prif Weinidog Cymru a Phrif Weinidog yr Alban **ar y cyd at Lefarydd Tŷ'r Arglwyddi**, yn amlinellu eu pryderon ynghylch diwygiadau arfaethedig Llywodraeth y DU i Fil yr UE (Ymadael).

Ar 14 Mawrth, cynhaliwyd **Cyfarfod Llawn y Cydbwyllgor Gweinidogion (JMC)** rhwng Prif Weinidog Cymru, Prif Weinidog yr Alban a Phrif Weinidog y DU. Trafodwyd cynnydd o ran trafodaethau'r UE yn y cyfarfod hwn. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **ei datganiad ar y cyfarfod** ar 19 Mawrth.

Ar yr un diwrnod, pasiodd Senedd Ewrop ei **Phenderfyniad ar fframwaith y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol**. Mae'r Penderfyniad yn nodi egwyddorion Senedd yr UE ar gyfer fframwaith yn y dyfodol.

Ar 19 Mawrth, cytunodd timau negodi'r UE a'r DU ar **ddiweddariad i destun cyfreithiol y Cytundeb Ymadael Drafft**. Ar ôl cyhoeddi'r testun drafft, cyhoeddwyd bod y DU a'r UE wedi dod i gytundeb gwleidyddol ar y cyfnod pontio. Bydd y DU yn gadael yr UE yn ffurfiol ar 29 Mawrth 2019 ond bydd cyfnod pontio o 21 mis (a ddaw i ben ym mis Rhagfyr 2020) rhwng diwedd aelodaeth y DU o'r UE a dechrau unrhyw berthynas newydd â hi.

Ar 21 Mawrth pasiodd y Cynulliad Cenedlaethol y **Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru)**, yn dilyn **ystyried y Bil yng Nghyfnod 1**, ar 13 Mawrth. Mae'r **Bil, fel y'i pasiwyd** bellach yn y cyfnod o bedair wythnos o hysbysrwydd, pan gaiff y Cwnsler Cyffredinol neu'r Twrnai Cyffredinol gyfeirio'r cwestiwn a yw'r Bil, neu unrhyw ddarpariaeth ynddo, yn dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad, at y Goruchaf Lys am benderfyniad. Pasiodd Senedd yr Alban ei **Bil Ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd (Parhad Cyfreithiol) (Yr Alban)** ei hun.

Ar yr un diwrnod cynhaliwyd **Dadl ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) yn Nhŷ'r Arglwyddi**, sy'n golygu bod y Bil wedi'i adrodd heb ei ddiwygio. Mae Cyfnod Adrodd y Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi i ddechrau ar 18 Ebrill.

Ar 23 Mawrth mabwysiadodd y Cyngor Ewropeaidd ei **ganllawiau trafod ar gyfer datganiad gwleidyddol ar y bartneriaeth yn y dyfodol rhwng yr UE a'r DU**. Caiff y datganiad ei fabwysiadu ochr yn ochr â'r Cytundeb Ymadael, a bydd yn gosod y fframwaith ar gyfer trafodaethau manwl ar gytundeb / cytundebau ar berthynas y DU â'r UE yn y dyfodol. Cyhoeddodd Donald Tusk, Llywydd y Cyngor Ewropeaidd **ddatganiad i gyd-fynd â'r canllawiau**.

Hefyd ar 23 Mawrth 2018, **ysgrifennodd y Prif Weinidog lythyr at Fusnesau'r DU**, yn crynhoi llawer o elfennau sylweddol y cyfnod pontio.

Ar 26 Mawrth **gwnaeth Prif Weinidog y DU ddatganiad yn y Senedd** ynghylch bod cytundeb ar y Cytundeb Ymadael Drafft, ac ar gynnydd cyffredinol y trafodaethau a sefyllfa bresennol Llywodraeth y DU o ran nifer o faterion.

Ar 29 Mawrth 2018 **aeth y Prif Weinidog ar daith o amgylch y DU**, gan ymweld â'r Alban, Lloegr, Gogledd Iwerddon a Chymru i nodi blwyddyn i fynd tan Brexit.

Ar 4 Ebrill cyhoeddodd Pwyllgor Dethol Ymadael â'r UE Tŷ'r Cyffredin Senedd y DU ei **adroddiad ar berthynas y DU â'r UE yn y Dyfodol.** Mae'r adroddiad yn nodi nifer o 'brofion' y bydd yn eu defnyddio i 'farnu'r datganiad gwleidyddol ym mis Hydref 2018', h.y. y Cytundeb Ymadael terfynol.

Yn ystod yr wythnosau a'r misoedd diweddar, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cyhoeddi cyfres o friffiau parodrwydd i ddinasyddion a busnesau ar ymadawiad y DU o'r UE, a chyfres o sleidiau a baratowyd i lywio trafodaethau mewnol yr UE ar y berthynas yn y dyfodol. Cyhoeddwyd y dogfennau diweddaraf mewn perthynas â pharodrwydd rhwng 12 Mawrth a 9 Ebrill. Maent yn cynnwys papurau briffio ar **bysgodfeydd a dyframaeth,** ar **hawlfraint, ar Ailgylchu llongau yr UE**, ar **Euratom**, ar

iechyd planhigion, ar dorri a thrin coed yn anghyfreithlon, ar y gwasanaethau cyfryngau clyweledol, ar gyfathrebu electronig ac ar rwydweithiau diogelwch a systemau gwybodaeth.

## 2. Y datblygiadau a'r dogfennau diweddaraf a gyhoeddwyd

### Cytundeb Ymadael Drafft

Er na fydd unrhyw beth yn cael ei gytuno'n ffurfiol tan ddiwedd y cyfnod o ddwy flynedd o drafodaethau, gwnaed cynnydd tuag at ddod i gytundeb gwleidyddol ar rai agweddau ar drafodaethau cam un a cham dau.

Ar 19 Mawrth cytunodd timau negodi'r UE a'r DU ar ddiweddariad i destun cyfreithiol Cytundeb Ymadael Drafft. Mae'r ddogfen 129 tudalen yn cynnwys testun cyfreithiol y cytunwyd arno ar gyfer cyfnod gweithredu, hawliau dinasyddion, a'r setliad ariannol, yn ogystal â nifer sylweddol o erthyglau eraill.

Mae'r ddogfen yn cynnwys codau lliw, fel yr eglura'r cytundeb:

> *... text in green is agreed at negotiators 'level, and will only be subject to technical legal revisions in thecoming weeks. For text in yellow, negotiators agreed on the policy objective. Drafting changes or clarifications are still required.Text in white corresponds to text proposed by the Union on which discussions are ongoing.*

Fel y dywed y testun lliw, mae'r DU a'r UE wedi dod i gytundeb ar fater hawliau'r dinesydd, ar setliad ariannol y DU a'r rhan fwyaf o faterion gwahanu eraill.

Mae'r meysydd allweddol mewn gwyn, sy'n nodi meysydd ble nad oes cytundeb eto yn cynnwys yr hyn sy'n digwydd o ran ffin Gogledd Iwerddon / Iwerddon, sefyllfa Gibraltar yn y trafodaethau, a pha rôl y bydd gan Lys Cyfiawnder Ewrop wrth gymrodeddu mewn unrhyw anghydfodau yn y dyfodol wrth weithredu'r Cytundeb Ymadael.

Nod y ddwy ochr yw cytuno ar fersiwn derfynol o'r Cytundeb Ymadael erbyn mis Hydref 2018, er mwyn caniatáu amser i sicrhau cadarnhad gan y Cyngor Ewropeaidd, gan Senedd Ewrop a chan Senedd y DU erbyn 29 Mawrth 2019. Byddai rhai darpariaethau yn y Cytundeb Ymadael yn dod i rym ar 30 Mawrth 2019, er enghraifft, y darpariaethau ar y cyfnod pontio, tra byddai eraill yn dod i rym ar ddiwedd y cyfnod pontio ar 1 Ionawr 2021.

Mae cyfres o sgyrsiau pellach rhwng swyddogion o'r ddwy ochr am ffin Gogledd Iwerddon ac Iwerddon wedi'u cynnal ers 14 Mawrth. Daw'r cylch diweddaraf o sgyrsiau i ben ar 18 Ebrill.

Dywedodd Prif Weinidog y DU yn y Senedd ar 26 Mawrth 2018 fod Llywodraeth y DU wedi ymrwymo:

> *to agree operational legal text for the "backstop option" set out in the Joint Report - although it remains my firm belief that we can and will find the best solutions for Northern Ireland as part of the overall future relationship between the UK and the EU.*

Fodd bynnag, safbwynt y Prif Weinidog yw:

> *… that the specific European Commission proposals for that backstop were unacceptable because they were not in line with Belfast Agreement and threatened the break-up of the UK's internal market. And as such they were not a fair reflection of the Joint Report..*

Yn dilyn cyhoeddi'r testun drafft ar 19 Mawrth, cyhoeddodd **David Davis, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r UE a Michel Barnier, Prif drafodydd yr UE** fod y DU a'r UE wedi dod i gytundeb gwleidyddol ar y cyfnod pontio. Er y bydd y DU yn gadael yr UE yn ffurfiol ar 29 Mawrth 2019 bydd cyfnod pontio o 21 mis rhwng diwedd aelodaeth y DU a dechrau unrhyw berthynas newydd a gytunir gyda'r UE. Daw'r cyfnod pontio i ben ym mis Rhagfyr 2020.

Mae rhagor o fanylion am y cyfnod pontio i'w gweld yn Adran 3 y papur hwn.

## Partneriaeth yn y dyfodol

Ar 23 Mawrth **mabwysiadodd y Cyngor Ewropeaidd ei ganllawiau trafod** ar gyfer datganiad gwleidyddol ar y bartneriaeth yn y dyfodol rhwng y DU a'r UE. Bydd y datganiad yn cael ei fabwysiadu ochr yn ochr â'r Cytundeb Ymadael, a bydd yn gosod y fframwaith ar gyfer trafodaethau manwl ar gytundeb / cytundebau ar berthynas y DU â'r UE yn y dyfodol. Bydd Michel Barnier, Prif Drafodwr yr UE yn defnyddio'r canllawiau hyn fel sail ar gyfer trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar gynnwys y datganiad gwleidyddol. Dylanwadodd **Penderfyniad Senedd Ewrop ar fframwaith ar gyfer perthynas y DU â'r UE yn y dyfodol**, a basiwyd ar 14 Mawrth, ar y canllawiau hyn, yn rhannol. Mae'r Penderfyniad hwn yn nodi egwyddorion Senedd yr UE ar gyfer fframwaith yn y dyfodol.

Mewn **datganiad a oedd yn cyd-fynd â'r canllawiau trafod**, dywedodd Donald Tusk, Llywydd y Cyngor Ewropeaidd, bod rhai meysydd cyffredin rhwng yr hyn y mae Llywodraeth y DU a'r UE yn gobeithio ei gynnwys mewn partneriaeth yn y dyfodol, fel masnach tariff sero, partneriaeth diogelwch a chytundebau ar feysydd fel ymchwil ac arloesedd.

Mae'r canllawiau hefyd yn nodi meysydd lle mae angen trafodaeth bellach fel, pa aelodaeth neu berthynas, os o gwbl, y bydd y DU yn gallu ei gael gydag asiantaethau'r UE, fel yr Asiantaeth Feddyginiaethau Ewropeaidd.

Nododd y Llywydd Tusk hefyd:

> *From my point of view, the outcome of the negotiations must pass two key tests:*
>
> *– the test of balance of rights and obligations. For example, the EU cannot agree to grant the UK the rights of Norway with the obligations of Canada;*
>
> *– the test of integrity of the Single Market. No Member State is free to pick only those sectors of the Single Market it likes, nor to accept the role of the ECJ only when it suits their interest. By the same token, a pick-and-mix approach for a non-member state is out of the question. We are not going to sacrifice these principles. It's simply not in our interest.*

Cadarnhaodd datganiad y Prif Weinidog yn y Senedd ar 26 Mawrth 2018, bod ei hareithiau ym **Munich** ac **yn Mansion House** yn nodi'r partneriaethau diogelwch a'r partneriaethau economaidd y mae'n dymuno eu datblygu yn y dyfodol.

Ar 14 Mawrth, cynhaliwyd **Cyfarfod Llawn y Cydbwyllgor Gweinidogion (JMC)** rhwng Prif Weinidog Cymru, Prif Weinidog yr Alban a'r Prif Weinidog. Trafodwyd cynnydd o ran trafodaethau'r UE yn y cyfarfod hwn.

Ar **26 Mawrth cynhaliwyd trydydd cyfarfod** o'r Fforwm Rhyngseneddol ar Brexit yng Nghaeredin. Mae'r Fforwm yn dwyn ynghyd seneddwyr o San Steffan, Caeredin a Chaerdydd, ynghyd â swyddogion o Belfast. Cyhoeddwyd **datganiad ar y cyd** ar ôl y cyfarfod.

Cyhoeddodd Pwyllgor Dethol ar Ymadael â'r UE Tŷ'r Cyffredin Senedd y DU **adroddiad ar berthynas y DU â'r UE yn y Dyfodol** ar 4 Ebrill. Mae'r adroddiad yn nodi nifer o 'brofion' y bydd yn eu defnyddio i 'farnu'r datganiad gwleidyddol ym mis Hydref 2018', h.y. y Cytundeb Ymadael terfynol. Yn bennaf, mae'r profion yn cynnwys y graddau y bydd dinasyddion, busnesau a sefydliadau eraill y DU yn gallu ymgysylltu â chymheiriaid yr UE ar ôl Brexit. Fodd bynnag, ni wnaeth y Pwyllgor ddod i gasgliad unfrydol o ran yr adroddiad hwn, ac roedd rhai o **Aelodau'r pwyllgor yn beirniadu'r adroddiad** yn y wasg ar y diwrnod y cyhoeddwyd ef.

## Nodi blwyddyn i fynd

Ar 29 Mawrth 2018 aeth y Prif Weinidog ar daith o amgylch y DU, yn ymweld â'r Alban, Lloegr, Gogledd Iwerddon a Chymru i nodi blwyddyn i fynd tan Brexit. **Nod penodol y daith** oedd i'r Prif Weinidog

> *… outline her determination to deliver a Brexit deal that works for every community and protects the integrity of the Union.*

Dywedodd Martin Shipton, prif ohebydd y cyfrwng Media Wales mai ef oedd yr unig 'newyddiadurwr o wasg yng Nghymru a fyddai'n gofyn cwestiwn i'r Prif Weinidog' yn ystod y daith yng Nghymru. Gofynnodd:

> *Many take the view that leaving the Single Market and Customs Union will be devastating for the Welsh economy, which more than England's relies on manufacturing car and aircraft parts for export. What would you do for Wales, and companies based here, to offset such economic concerns?*

Ymatebodd y Prif Weinidog:

> *First of all, I think there's actually a bright future for Wales and for the whole of the United Kingdom when we've left the European Union. I think there will be opportunities open to us. What I'm doing today in my tour of the four nations of the UK is talking to people like parents in the north east of England, I've talked to a business in Scotland, businesses here in Wales, farmers in Northern Ireland … is [sic] hearing directly from them as to what they, how they see Brexit, what they want from Brexit. But also talking about the real opportunities that would exist to trade around the rest of the world.*
>
> *So we're focusing now in our negotiations with the European Union on ensuring that we get that good economic partnership with the EU which will enable businesses here in Wales and elsewhere to continue to trade with the European Union.*
>
> *But also ensuring that we're seeing those markets developed elsewhere.*

Mae'r **erthygl yn ei chyfanrwydd ar gael ar-lein**. Cyhoeddodd Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad erthygl hefyd ar yr un diwrnod o'r enw: **Blwyddyn i fynd: Trafodaethau Brexit yn cyrraedd hanner ffordd**.

## Deddfwriaeth y DU

### Y Bil Masnach

Cafodd y Bil Masnach ei gyflwyno i Dŷ'r Cyffredin heb unrhyw ddiwygiadau ar 1 Chwefror. Mae'r Bil yn ymwneud yn agos â'r **Bil Trethiant (Masnach Trawsffiniol)** sy'n aros am ei Gyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin ar hyn o bryd. Mae'r Bil Masnach a'r Bil Trethiant (Trawsffiniol) yn ceisio darparu pwerau fframwaith i sefydlu cyfundrefn fasnachu annibynnol y DU ar ôl i'r DU adael yr UE i Weinidogion y DU ac, mewn rhai amgylchiadau, i'r Gweinidogion datganoledig.

Ni chafodd gwelliannau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban i'r Bil Masnach eu derbyn yn y cyfnod pwyllgor. Cyflwynwyd rhagor o welliannau i'r Bil cyn y Cyfnod Adrodd ond ni chyhoeddwyd dyddiad ar gyfer y cyfnod adrodd eto. Mae'r gwelliannau hyn yn cynnwys cymal a gyflwynwyd gan Jeremy Corbyn a fyddai'n sicrhau bod yn rhaid cael cydsyniad Gweinidogion datganoledig ar gyfer rheoliadau a wneir gan Weinidog y Goron sydd o fewn cymhwysedd datganoledig.

Gosododd Llywodraeth Cymru **Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol** mewn perthynas â'r *Bil Masnach* gerbron y Cynulliad ar 7 Rhagfyr 2017. Daeth i'r casgliad, fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd, na allai argymell bod y Cynulliad yn rhoi caniatâd i'r Bil.

Yn ddiweddar cyflwynodd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol (EAAL) a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (CLA) adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n ymwneud â'r Bil Masnach.

Cyhoeddwyd **Adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol** ar 9 Mawrth. Roedd yn cynnwys un Argymhelliad 'na ddylai'r Cynulliad roi ei gydsyniad deddfwriaethol i ddarpariaethau yn y Bil Masnach a nodwyd fel rhai y mae angen cydsyniad y Cynulliad iddynt ar hyn o bryd.' Daeth yr adroddiad i'r casgliad hefyd, ymhlith pethau eraill, bod y pwerau a gynigir i Weinidogion Cymru wedi'u fframio'n rhy eang, ac y dylid diwygio'r Bil i nodi na ellir defnyddio'r pwerau y mae'n eu cynnig i ddiwygio *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*.

Cyhoeddwyd **Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol** ar 16 Mawrth 2018. O dan yr amgylchiadau, credwn ei bod yn debygol y bydd angen gwelliannau i'r Bil Masnach cyn y bydd y Cynulliad Cenedlaethol mewn sefyllfa i roi ei gydsyniad. Nododd yr adroddiad hefyd, ymhlith pethau eraill, y dylai defnyddio pwerau cydamserol gan Weinidogion y DU i wneud rheoliadau sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol mewn meysydd datganoledig fod yn ddarostyngedig i ganiatâd y Cynulliad Cenedlaethol.

### Bil Sancsiynau a Gwrth-Wyngalchu Arian

Bil arall sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r UE a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU yw'r **Bil Sancsiynau a Gwrth-Wyngalchu Arian**, sy'n darparu ar gyfer sefydlu trefn gosbau genedlaethol ar ôl ymadael â'r UE, hefyd yn aros am ei Gyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin, ac ni chyhoeddwyd y dyddiad hwnnw eto.

### Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

Daeth Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi **Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)** i ben ar 28 Mawrth, ar ôl eistedd am 11 diwrnod. Cyflwynwyd dros **400 o welliannau i'r Bil, gan gynnwys gwelliannau a**

**gyhoeddwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban na chafodd eu derbyn yn Nhŷ'r Cyffredin**, yn ogystal â gwelliannau i Gymal 11, a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU.

Roedd Cymal 11, sy'n gosod cyfyngiadau ar gymhwysedd deddfwriaethol y deddfwrfeydd datganoledig, yn amlwg yn ystod dadleuon Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar 21 a 26 Mawrth. Cyn i'r Arglwyddi ystyried y cymalau datganoli, cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd y Cydbwyllgor Gweinidogion (JMC (EN)), i geisio dod i gytundeb ar y Bil Ymadael.

Cyfarfu'r Cydbwyllgor ar 8 Mawrth, am yr ail dro mewn pythefnos, i drafod cytundeb posibl ar welliannau i'r darpariaethau datganoli yn y Bil Ymadael. Wedi hyn, cyhoeddwyd Hysbysiad a ddywedai:

> *The Committee discussed the UK Government's proposed amendment to clause 11 and progress made towards reaching agreement. The Committee noted the timings for the Committee Stage debate in the House of Lords. All administrations remained committed to reaching agreement on the EU (Withdrawal) Bill. Discussions on further detail on the proposal would continue between the UK Government and Scottish and Welsh Governments in the coming weeks.*

Roedd **Datganiad i'r wasg** Swyddfa'r Cabinet a oedd yn cyd-fynd â'r Hysbysiad yn nodi penderfyniad Llywodraeth y DU i gyflwyno ei diwygiadau i'r Bil Ymadael yn Nhŷ'r Arglwyddi er na chytunwyd arno i alluogi'r Senedd i gael dadl fanwl ar gymal 11.

Cyflwynwyd gwelliannau arfaethedig Llywodraeth y DU i Gymal 11 ar 13 Mawrth, i'w hystyried yn y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi. Mae Cymal 11, fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd, yn gosod cyfyngiad newydd ar gymhwysedd deddfwriaethol y deddfwrfeydd datganoledig ar ôl Brexit, o ran na fyddant yn gallu pasio deddfwriaeth sy'n anghydnaws â chorff cyfraith yr UE a gaiff ei chadw gan y Bil, oni bai bod y cyfyngiad yn cael ei godi gan Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor.

Roedd gwelliannau Llywodraeth y DU, **a gyflwynwyd gan yr Arglwydd Callanan**, yn cynnig newid cymal 11, drwy roi rhyddid i'r deddfwrfeydd datganoledig ddeddfu ar unrhyw faes o fewn eu pwerau, yn hytrach na gosod cyfyngiad cyffredinol ar gymhwysedd deddfwriaethol. Byddai'r gwelliant arfaethedig, fodd bynnag, yn rhoi pwerau i Weinidogion y DU wneud rheoliadau sy'n gosod cyfyngiadau yn y meysydd datganoledig. Byddai angen i ddau Dŷ'r Senedd gymeradwyo'r rheoliadau hyn, ond ni fyddai angen i'r Cynulliad gytuno arnynt.

Mewn **llythyr**, dyddiedig 13 Mawrth, at holl Aelodau'r Cynulliad, nododd Alun Cairns, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ei farn ynghylch y gwelliannau i Gymal 11, a disgrifiodd hwy fel cynnig sylweddol.

Ddydd Mercher 14 Mawrth, cynhaliwyd cyfarfod llawn y Cydbwyllgor Gweinidogion rhwng Theresa May, Prif Weinidog y DU, Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru, a Nicola Sturgeon, Prif Weinidog yr Alban. Fodd bynnag, ni chafwyd cytundeb ar y gwelliannau i'r Bil Ymadael yn ystod y cyfarfod. Yn ôl yr Hysbysiad a gyhoeddwyd ar ôl y cyfarfod:

> *Ministers also discussed the EU (Withdrawal) Bill, agreeing that further work would be required at JMC(EN) and via further Ministerial discussions, with all administrations reiterating their preference to reach agreement on an amendment to Clause 11.*

Ar 15 Mawrth, ysgrifennodd Prif Weinidog Cymru a Phrif Weinidog yr Alban **ar y cyd at Lefarydd Tŷ'r Arglwyddi**, yn amlinellu eu pryderon ynghylch gwelliannau arfaethedig Llywodraeth y DU i Gymal 11.

Trafodwyd gwelliannau Llywodraeth y DU i Gymal 11, yn ogystal â gwelliannau eraill, gan gynnwys y rhai a ddrafftiwyd ar y cyd gan Lywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru, ar 21 Mawrth. Penderfynodd Llywodraeth y DU, fodd bynnag, dynnu ei gwelliannau yn ôl ar ôl y drafodaeth. **Dywedodd yr Arglwydd Keen o Elie, Eiriolwr Cyffredinol yr Alban, wrth siarad ar ran Llywodraeth y DU**:

> *We have put forward these amendments to facilitate scrutiny of the Government's current position on Clause 11. They reflect the status of our discussions with the devolved Administrations, and noble Lords will be aware that our discussions with the Scottish and Welsh Governments are continuing. We remain convinced that this Bill is the right vehicle for providing legal certainty across the UK and that we should reach agreement with the Scottish and Welsh Governments. As such, the Government do not seek a vote on these amendments today and we will withdraw or not move them at the conclusion of the debate, but we will reflect seriously on the points made and incorporate them into our discussions.*

Cafodd yr holl welliannau eraill yn ymwneud â datganoli eu tynnu'n ôl hefyd. O ganlyniad, roedd y Bil wedi'i adrodd heb ei ddiwygio, a threfnwyd i Gyfnod Adrodd y Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi ddechrau ar 18 Ebrill.

## Dogfennau a Phapurau Sefyllfa

Ers cyhoeddi'r adroddiad monitro diwethaf, mae'r UE wedi cyhoeddi ei chyfarwyddebau negodi ar y cyfnod pontio, papur sefyllfa ar gymalau a awgrymir i'w cynnwys yn y Cytundeb Ymadael a chyfres o gyflwyniadau a wnaed fel rhan o'r trafodaethau mewnol anffurfiol ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Mae'r rhain wedi'u hychwanegu at y tabl isod.

**Tabl 1 Papurau Sefyllfa a dogfennau allweddol a gyhoeddwyd gan yr Undeb Ewropeaidd a'r DU**

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| Essential Principles on Citizens Rights<br>29 Mai 2017 i UE 27<br>12 Mehefin i'r DU | Yn amlinellu sefyllfa'r Undeb Ewropeaidd ar hawliau dinasyddion y DU yn yr Undeb Ewropeaidd a hawliau dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd yn y DU. | Diogelu sefyllfa dinasyddion yr UE yng ngwledydd y DU a'r DU yn yr UE: Papur Sefyllfa<br>26 Mehefin 2017 | Yn amlinellu sefyllfa'r DU ar yr hawliau y dylai dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd eu cael yn y DU a'r hawliau y dylai gwladolion y DU eu cael yn yr Undeb Ewropeaidd. Gweler blog y Gwasanaeth Ymchwil am ragor o fanylion. |
| Essential Principles on the financial settlement<br>29 Mai 2017 i UE 27<br>12 Mehefin i'r DU | Yn amlinellu cynigion yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer methodoleg y dylid cytuno arni yn ystod negodiadau Cam 1 ar sut y dylid cyfrifo rhwymedigaethau ariannol y DU i'r Undeb Ewropeaidd. Mae Atodiad 1 yn cynnwys rhestr o asiantaethau, cyrff ac offerynnau ariannol i'w cynnwys yn y fethodoleg. | Dim | Mae Ysgrifennydd Gwladol y DU ar gyfer DEXEU wedi amlinellu y bydd y DU yn cwestiynu sefyllfa'r Undeb Ewropeaidd yn hytrach nag amlinellu ei sefyllfa ei hun. |
| Nuclear material and safeguard equipment (Euratom)<br>23 June 2017 to EU27<br>13 July to UK | Yn amlinellu cynigion yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer trin a throsglwyddo perchnogaeth deunyddiau ymholltog arbennig. Mae'n cwmpasu llai o ardaloedd nag a gynigir gan y DU mewn papur cyfatebol | Nuclear material and safeguards issues. | Mae Llywodraeth y DU yn nodi chwe egwyddor y mae am i'r negodiadau ar y materion hyn eu cyflawni. Mae'n cwmpasu rhai meysydd ychwanegol at y rhai a gwmpaswyd gan y Comisiwn Ewropeaidd, gan gynnwys contractau presennol am gyflenwi deunydd niwclear, |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | | | gweddillion tanwydd a gwastraff ymbelydrol. Mae'r DU yn nodi y dylai gweddillion tanwydd a gwastraff ymbelydrol barhau i fod yn gyfrifoldeb y Wladwriaeth lle y cawsant eu cynhyrchu ar ôl ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd. |
| **Judicial cooperation in civil and commercial matters**<br>29 Mehefin 2017 i UE 27<br>13 July to UK | Yn amlinellu cynigion ar gyfer rhoi gweithdrefnau ar waith ar gyfer achosion sy'n aros am ddedfryd pan fydd y DU yn ymadael. | **Providing a cross-border civil judicial framework: a future partnership paper**<br>22 Awst 2017 | Mae Llywodraeth y DU wedi nodi ei sefyllfa ar gyfer y gweithdrefnau a ddylai fod yn berthnasol i achosion sy'n aros am ddedfryd ar yr adeg y bydd y DU yn ymadael a chynigion ar gyfer cydweithredu parhaus yn y maes hwn mewn un papur. Mae'r papur yn nodi bod Atodiad A yn ymateb yn uniongyrchol i bapur yr Undeb Ewropeaidd ac yn nodi blaenoriaethau Llywodraeth y DU os na chytunir ar bartneriaeth ar gyfer y dyfodol. Mae'n nodi nad dim cytundeb ar gydweithredu yn y dyfodol yw ei ddewis. Mae'r papur yn nodi y bydd gadael yr Undeb Ewropeaidd yn dod ag |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | | | awdurdodaeth uniongyrchol Llys Cyfiawnder Ewrop i ben ond y bydd y DU yn ceisio dod i gytundeb â'r Undeb Ewropeaidd a fydd yn caniatáu cydweithredu barnwrol sifil trawsffiniol clos a chynhwysfawr. |
| **Ongoing Police and Judicial cooperation in criminal matters**<br>29 Mehefin 2017 i UE 27<br>13 July to UK | Cynigion ar gyfer y gweithdrefnau a fydd yn cymhwyso gweithdrefnau parhaus fel, gorchmynion ymchwilio Ewropeaidd a gweithdrefnau Gwarantau Arestio Ewropeaidd ar y dyddiad y bydd y DU yn ymadael, a sut y bydd y wybodaeth a geir drwy'r gweithdrefnau hyn yn cael ei thrin. | Diogelwch, Gorfodi'r Gyfraith a Chyfiawnder Troseddol. **Papur Partneriaeth y Dyfodol** | Mae Atodiad A o'r papur yn ymateb yn uniongyrchol i'r materion a godwyd gan yr Undeb Ewropeaidd yn ei bapur yntau. Fodd bynnag, mae'r DU yn argymell y dylid cynnal trafodaethau ar faterion troseddol a fydd yn codi yn sgil ymadael yng nghyd-destun trafodaethau ar bartneriaeth yn y dyfodol. Mae'r papur yn galw am berthynas ddyfnach a chydweithrediad ar faterion yn ymwneud â gorfodi'r gyfraith a chyfiawnder troseddol rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd na'r hyn sydd gan yr Undeb Ewropeaidd gyda gwledydd trydydd parti ar hyn o bryd. Noda y dylid ei ddarllen ar y cyd â phapurau eraill ar y bartneriaeth |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | | | yn y dyfodol yn ymwneud â diogelwch a diogelu data. |
| Ongoing Union and Judicial Procedures<br>29 Mehefin 2017 i UE 27<br>13 July to UK | Yn amlinellu'r cynigion ar gyfer rhoi gweithdrefnau ar waith ar gyfer achosion gerbron Llys Cyfiawnder Ewrop sy'n ymwneud â'r DU neu drigolion/personau cyfreithiol y DU ar adeg ymadael a chynigion ar gyfer gweithdrefnau gweinyddol parhaus o ran sefydliadau'r Undeb, cyrff, swyddfeydd ac asiantaethau sy'n ymwneud â'r DU neu drigolion/personau cyfreithiol y DU. Cynigiodd yr UE y dylai'r Llys Cyfiawnder Ewropeaidd gadw rhywfaint o gymhwysedd i ddyfarnu mewn achosion a ddygir yn erbyn y DU ar ôl iddi ymadael sy'n ymwneud â materion a ddigwyddodd pan oedd y DU yn dal i fod yn Aelod-wladwriaeth. | Ongoing union judicial and administrative proceedings: Position Paper. Papur Sefyllfa 13 Gorffennaf 2017 | Mae Llywodraeth y DU yn cydnabod y bydd rhai achosion yn aros am ddedfryd ar yr adeg y bydd yn ymadael a ddylai barhau i ddod o fewn awdurdodaeth Llys Cyfiawnder Ewrop, ac mae'n ceisio cael cytundeb ar feini prawf ynghylch y diffiniad o 'aros am ddedfryd'. Mae hefyd yn gofyn am eglurhad o rôl Eiriolwr Cyffredinol y DU a chyfreithwyr y DU yn y Llys yn ystod cyfnod pontio tra bod achosion yn dal i aros am ddedfryd. Nid yw'n cytuno y dylai Llys Cyfiawnder Ewrop gadw rhywfaint o gymhwysedd dros achosion a ddygwyd ar ôl y dyddiad ymadael yn ymwneud â phethau a ddigwyddodd cyn y dyddiad gadael. |
| Issues relating to the functioning of EU Institutions, Agencies and Bodies<br>29 Mehefin 2017 i UE 27<br>13 Gorffennaf 2017 I'R DU | Mae'r papur yn nodi sefyllfa'r UE ar ba amddiffyniadau ac imiwneddau a fydd yn berthnasol i sefydliadau ac asiantaethau'r Undeb Ewropeaidd yn y DU ar ôl iddi | Privileges and Immunities 13 Gorffennaf 2017 | Mae papur sefyllfa'r DU yn cytuno y dylid cynnig amddiffyniadau ac imiwneddau i eiddo, asedau a gweithrediadau'r Undeb Ewropeaidd yn y DU am |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | ymadael tra bod gweithgareddau cyrff yr Undeb Ewropeaidd yn y DU yn cael eu dirwyn i ben. | | gyfnod trosiannol ar ôl iddi ymadael. Mae negodwyr ar y ddwy ochr wedi nodi eu bod yn agos at gyrraedd cytundeb ar y mater hwn. |
| Llywodraethu<br>29 Mehefin 2017 i UE 27<br>13 Gorffennaf 2017 i'r DU | Mae'r papur yn amlinellu cynigion yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer mecanwaith datrys anghydfodau ar gyfer y Cytundeb Gadael, gan gynnwys sefydlu Cydbwyllgor i ystyried anghydfodau. Dywed y dylai'r Cydbwyllgor gyfeirio achosion at Lys Cyfiawnder Ewrop am benderfyniadau rhwymol pan na ellir dod i gytundeb yn y Pwyllgor. Noda y dylai'r Comisiwn Ewropeaidd gadw pwerau llawn ar gyfer monitro a gweithredu'r cytundeb ar hawliau dinesydd. | **Gorfodi ac anghydfod : Papur Partneriaeth y Dyfodol**<br>**23 Awst 2017** | Mae'r Papur yn cynnwys cynigion ar gyfer mecanwaith gorfodi a datrys anghydfodau newydd ar gyfer y Cytundeb Ymadael ac unrhyw bartneriaeth yn y dyfodol. Mae'r papur yn nodi y bydd angen mecanwaith newydd gan y bydd awdurdodaeth Llys Cyfiawnder Ewrop yn dod i ben. Safbwynt y DU yw, pan fo'r Cytundeb Ymadael neu unrhyw drefniadau partneriaeth yn y dyfodol yn arwain at hawliau neu rwymedigaethau ar gyfer unigolion a busnesau sy'n gweithredu yn y DU, bydd y rhain yn dod i rym yng nghyfraith y DU ac yn cael eu gorfodi gan lysoedd y DU. Mae'r papur sefyllfa yn dadlau nad oes cynsail na gorfodaeth yng nghyfraith yr Undeb Ewropeaidd na'r DU sy'n |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | | | datgan bod yn rhaid i orfodi neu ddatrys anghydfod ddod o dan awdurdodaeth uniongyrchol Llys Cyfiawnder Ewrop. |
| **Goods placed on the market under Union law before the withdrawal date**<br>29 Mehefin 2017 i'r UE<br>13 Gorffennaf 2017 i'r DU | Mae'r papur yn nodi'r cynigion ar gyfer y gweithdrefnau a ddylai fod yn berthnasol i nwyddau sy'n cydymffurfio â holl reolau'r Undeb ac yn cael eu rhoi ar y farchnad i'w gwerthu cyn y dyddiad ymadael ond nad ydynt wedi'u gwerthu ar y dyddiad ymadael. | Continuity in the availability of goods for the EU and the UK: Position Paper Papur Sefyllfa<br>**21 Awst 2017** | Mae Llywodraeth y DU yn datgan y dylid datrys y mater hwn o ran unrhyw bartneriaeth yn y dyfodol. Mae'r DU yn gofyn am drafodaeth bellach ar ystyr "rhoi ar y farchnad" ac mae'n awgrymu y dylai gynnwys gwasanaethau sy'n gysylltiedig â chyflenwi nwyddau. |
| **Customs related matters needed for an orderly withdrawal of the UK from the Union**<br>7 Medi 2017 i EU 27 | Cynigion ar gyfer y gweithdrefnau tollau a ddylai fod yn berthnasol i nwyddau y mae eu symudiad wedi dechrau cyn y dyddiad ymadael ond yn dod i ben ar neu ar ôl hynny. | Continuity in the availability of goods for the EU and the UK: Position Paper Papur Sefyllfa<br>**21 Awst 2017**<br>**Trefniadau arferion yn y dyfodol: Papur Partneriaeth y Dyfodol**<br>**15 Awst 2017** | Mae papur sefyllfa'r DU ar barhad argaeledd nwyddau yn cydnabod y bydd angen mynd i'r afael â materion tollau sy'n ymwneud â nwyddau ar y farchnad ar adeg ymadael ond mae'n gwneud hynny mewn perthynas â'r cynigion ar gyfer perthynas dollau yn y dyfodol ac yn nodi y dylid mynd i'r afael â'r mater drwy drafodaethau am bartneriaeth ar gyfer yn y dyfodol. |
| **Guiding Principles transmitted to EU 27 for the** | Egwyddorion sy'n sail i drafodaethau am y berthynas | **Gogledd Iwerddon ac Iwerddon : Papur Sefyllfa** | Mae'r papur sefyllfa yn nodi y dylai'r Ardal Deithio Gyffredin |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| **Dialogue on Ireland/Northern Ireland.**<br>7 Medi i EU 27 | rhwng Iwerddon a Gogledd Iwerddon. Ni chynigir unrhyw ddatrysiadau ar gyfer ffin Iwerddon ac mae'r papur yn rhoi'r cyfrifoldeb ar y DU i gynnig atebion. | 16 Awst 2017 | rhwng Iwerddon a'r DU barhau, y dylid gwneud cynnydd cyflym ar y mater ac na fydd hawliau dinasyddion yr UE yn Iwerddon yn cael eu heffeithio gan barhad yr Ardal Deithio Gyffredin. Nid yw'r papur yn cynnig opsiynau penodol ar gyfer y ffiniau tir ond mae'n nodi egwyddorion i brofi modelau yn eu herbyn. Mae'n croesgyfeirio at gynigion Llywodraeth y DU ar gyfer trefniadau tollau yn y dyfodol. Noda na ddylai unrhyw ateb y cytunir arno ei gwneud yn ofynnol i gael ffiniau tollau newydd rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr. Gwna gynigion penodol ar gynhyrchion bwyd-amaeth. Awgryma y dylid cael cytundeb i barhau â chyllid PEACE ar gyfer Gogledd Iwerddon a siroedd ffiniol Iwerddon a hynny ar wahân i'r trafodaethau ehangach ar y setliad ariannol. |
| **Caffael Cyhoeddus**<br>7 Medi i EU 27 | Cynigion ar gyfer y rheolau a'r gweithdrefnau ar gaffael | Dim | |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | cyhoeddus a ddylai fod yn berthnasol i weithdrefnau caffael a chontractau sy'n parhau ar y dyddiad ymadael. | | |
| **Intellectual Property Rights (including geographical indications)**<br>7 Medi 2017 i EU 27 | Cynigion ar gyfer parhau i ddiogelu hawliau eiddo deallusol y cytunwyd arnynt cyn y dyddiad ymadael, gan gynnwys diogelu enwau gwarchodedig. Mae'r Undeb Ewropeaidd yn awgrymu y bydd angen i'r ddeddfwriaeth ddomestig newydd gael ei sefydlu yn y DU cyn y dyddiad ymadael mewn perthynas ag enwau bwyd gwarchodedig. | Dim | |
| **Use of Data and Protection of Information Obtained or Processed before the Withdrawal Date**<br>7 Medi i EU 27 | Cynigion ynglŷn â'r rheolau a'r amddiffyniadau cyfatebol a ddylai fod yn berthnasol i ddata a gedwir neu a brosesir yn y DU a'r Undeb Ewropeaidd ar ôl y dyddiad ymadael. | Confidentiality and access to documents: Position Paper<br>Papur Sefyllfa<br>**21 Awst 2017** | Mae'r papur yn nodi mai'r nod ddylai fod i'r Cytundeb Ymadael sicrhau bod gan y DU a'r Undeb Ewroepaiddd amddiffyniadau a rhwymedigaethau cyfatebol ar wybodaeth a mynediad i ddogfennau fel sy'n bodoli ar hyn o bryd o dan ddeddfwriaeth bresennol yr Undeb Ewropeaidd. |
| Dim | | **Trefniadau Tollau yn y Dyfodol: Papur partneriaeth yn y dyfodol** | Mae'r papur sefyllfa yn cynnig dau ddewis posibl ar gyfer perthynas dollau yn y dyfodol. |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
| --- | --- | --- | --- |
| | | 15 Awst 2017 | Trefniant tollau wedi'i symleiddio'n sylweddol rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaid neu bartneriaeth tollau newydd gyda'r Undeb Ewropeaidd lle byddai'r DU yn cysoni ei ffin â'r Undeb Ewropeaidd mewn ffordd sy'n golygu y byddai'n dileu'r angen am ffiniau tollau rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd. Byddai'r DU yn gadael yr undeb tollau ac yn gallu negodi ei chytundebau masnach ei hun o dan y ddau opsiwn. O dan yr ail opsiwn, mae'r papur sefyllfa yn cynnig y byddai'r DU yn adlewyrchu gofynion yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer nwyddau o weddill y byd os mai'r Undeb Ewropeaidd yw'r gyrchfan derfynol. Noda y byddai hyn yn ddigynsail a gallai fod yn heriol i'w weithredu ond mae'n dymuno ei drafod gyda'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r papur yn cynnig model cyfyngedig o ran amser ar gyfer cysylltiad agos ag undeb Tollau |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | | | yr Undeb Ewropeaidd am gyfnod pontio er mwyn osgoi sefyllfa 'ymyl clogwyn' i fusnesau ac unigolion ar y ddwy ochr. |
| Dim | | The exchange and protection of personal data: Future partnership paper Papur partneriaeth yn y dyfodol 24 Awst 2017 | Yn amlinellu cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer model newydd o gyfnewid a diogelu data personol rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd yn seiliedig ar ddull cyfredol yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n awgrymu y gallai Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth barhau i gydweithio â rheoleiddwyr yr Undeb Ewropeaidd. |
| Dim | | **Cydweithio ar Wyddoniaeth ac arloesi: Papur partneriaeth yn y dyfodol** 6 Medi 2017 | Mae'n amlinellu cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer cytundeb gwyddoniaeth ac arloesi gyda'r UE. Noda y dylai'r cytundeb fod yn eang a galluogi meysydd ymchwil newydd. Noda y bydd angen negodi mynediad parhaus y DU i raglenni ymchwil ac arloesi'r Undeb Ewropeaidd ynghyd â maint unrhyw gyfraniad ariannol y byddai'n rhaid i'r DU ei wneud i gymryd rhan ynddynt. Mae'n nodi y |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | | | byddai angen cydbwyso'r cyfraniad hwn yn erbyn blaenoriaethau gwariant eraill Llywodraeth y DU. Cyfeirir at gyfranogiad Prifysgolion Cymru mewn rhaglenni a rhwydweithiau sy'n bodoli eisoes. |
| Dim | | **Polisi Tramor, amddiffyn a datblygu: Papur partneriaeth yn y dyfodol**<br>12 Medi 2017 | Mae'r papur yn cynnig partneriaeth yn y dyfodol gyda'r Undeb Ewropeaidd ar ddiogelwch ac amddiffyniad sy'n ehangach nag unrhyw gytundeb sydd gan yr Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd gyda gwlad trydydd parti. Mae'n nodi'r meysydd lle mae cydweithrediad ar amddiffyniad, diogelwch a datblygiad rhyngwladol ar hyn o bryd. |
| Dim | | Customs Bill White Paper: legislating for UK's future customs, VAT and excise regimes<br>9 Hydref 2017 | Mae'r Papur Gwyn ar y Bil Tollau yn nodi cynigion cychwynnol Llywodraeth y DU ar gyfer system annibynnol ar gyfer tollau tramor, TAW a thollau cartref ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r Papur Gwyn yn cynnwys cynigion ar gyfer |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | | | senario wrth gefn os na ddeuir i gytundeb gyda'r Undeb Ewropeaidd ar berthynas fasnachol ar gyfer y dyfodol. |
| Dim | | Preparing for our future UK trade policy<br>9 Hydref 2017 | Mae'r papur gwyn ar y polisi masnach yn nodi'r safbwyntiau a ffefrir gan Lywodraeth y DU ar gyfer polisi masnach newydd, ac yn nodi pa ddeddfwriaeth fydd ei hangen i weithredu'r polisi hwnnw. Mae'r papur yn nodi pum blaenoriaeth ar gyfer polisi masnachu newydd. |
| Casgliadau'r Cyngor Ewropeaidd - ar y cynnydd a wnaed yn y trafodaethau | 2 Hydref Daeth y Cyngor i'r casgliad na wnaed digon o gynnydd yn y trafodaethau ar y Cytundeb Ymadael i ddechrau ar drafodaethau ar y berthynas yn y dyfodol. Rhoddodd fanylion am ble y mae angen rhagor o gynnydd. Nododd hefyd y byddai paratoadau mewnol rhwng y 27 Aelod-wladwriaeth sy'n weddill ar gyfer trafodaethau ar berthynas fasnachol yn y dyfodol yn dechrau. | Dim | |
| Dim | | Sanctions and Anti-Money Laundering Bill<br>19 Hydref | Ystyrir bod y Bil yn angenrheidiol er mwyn sicrhau y gall y DU weithredu trefn sancsiynau |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | | | ryngwladol yn dilyn ei hymadawiad o'r UE. |
| Dim | | **Technical Note: citizen's rights administrative procedures in the UK -** 7 Tachwedd | Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ragor o fanylion ynghylch sut y bydd y system ar gyfer gwneud cais am breswyliaeth barhaol yn y DU ar gyfer dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd yn gweithio. Anfonwyd hwn fel papur technegol at y Comisiwn Ewropeaidd. |
| Dim | | **Trade Bill 2018** 7 Tachwedd | Mae'r Bil yn rhoi pwerau i'r Gweinidog wneud newidiadau i gyfraith ddomestig y DU i weithredu Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Gaffael y Llywodraeth, ac unrhyw newidiadau angenrheidiol os bydd y DU yn dyblygu rhai o gytundebau presennol yr UE â gwledydd trydydd parti. Mae hefyd yn darparu camau i sefydlu Awdurdod Cymhorthion Masnach newydd, ac mae'n rhoi pwerau a dyletswyddau newydd mewn cysylltiad â data a gwybodaeth i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi o ran allforio a |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | | | masnach. |
| Joint Report gan negodwyr yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth y DU ar gynnydd yn ystod Cam 1 o drafodaethau o dan EUU Erthygl 50 ar ymadawiad trefnus y DU o'r UE<br>8 Rhagfyr 2017 | Daeth yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth y DU i gytundeb mewn egwyddor ar y meysydd o dan ystyriaeth yn ystod cam cyntaf y trafodaethau, gan alluogi sgyrsiau i symud i'r cam nesaf. Mae'r adroddiad yn nodi'r sefyllfa y cytunwyd arni ar amddiffyn hawliau dinasyddion yr Undeb yn y DU a dinasyddion y DU yn yr Undeb; y fframwaith ar gyfer mynd i'r afael â'r amgylchiadau unigryw yng Ngogledd Iwerddon; a'r setliad ariannol. | Adroddiad ar y Cyd<br>8 Rhagfyr 2017 | |
| Nodyn Cyfathrebu gan y Comisiwn i'r Cyngor Ewropeaidd (Erthygl 50) ar y sefyllfa o ran cynnydd y trafodaethau gyda'r DU o dan Erthygl 50 o'r Cytuniad ar yr Undeb Ewropeaidd<br>8 Rhagfyr 2017 | Yn seiliedig ar yr Adroddiad ar y Cyd gan negodwyr yr UE a Llywodraeth y DU, argymhellodd y Comisiwn wrth y Cyngor Ewropeaidd (Erthygl 50) y dylai ddod i gasgliad bod cynnydd digonol wedi'i wneud yng nghyfnod cyntaf y trafodaethau. | | |
| Dim | | Prime Minister's Commitments to Northern Ireland<br>8 Rhagfyr 2017 | Nododd y Prif Weinidog Theresa May chwe ymrwymiad allweddol i Ogledd Iwerddon a oedd yn ei harwain yn y trafodaethau â'r UE. |
| Canllawiau y Cyngor Ewropeaidd | Yn dilyn y penderfyniad bod digon | Dim | |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| 15 Rhagfyr 2017 | o gynnydd wedi'i wneud, cyhoeddodd y Cyngor Ewropeaidd (Erthygl 50) ganllawiau drafft i symud i ail gam y trafodaethau, pan drafodir y cyfnod trosiannol a'r fframwaith ar gyfer y berthynas yn y dyfodol. | | |
| **Supplementary negotiating directives**<br>20 Rhagfyr 2017 | Cyfarwyddebau atodol ar gyfer trafod cytundeb â'r DU sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer ei hymadawiad o'r UE. | Dim | |
| **Slides on Fisheries**<br>17 Ionawr 2018 | Cyflwyniad ar bysgodfeydd i hyrwyddo trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch y berthynas yn y dyfodol. | Dim | |
| **Slides on Aviation**<br>17 Ionawr 2018 | Cyflwyniad ar hedfan i hyrwyddo trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch y berthynas yn y dyfodol. | Dim | |
| Slides on Governance<br>19 Ionawr 2018 | Cyflwyniad ar lywodraethu i hyrwyddo trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch y berthynas yn y dyfodol. | Dim | |
| **Slides on Security, Defence and Foreign Policy**<br>24 Ionawr 2018 | Cyflwyniad ar ddiogelwch, amddiffyn a pholisi tramor i hyrwyddo trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch y berthynas yn y dyfodol. | Dim | |
| **Slides on Police and Judicial** | Cyflwyniad ar yr heddlu a | Dim | |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| **Cooperation in criminal matters**<br>24 Ionawr 2018 | chydweithrediad barnwrol i hyrwyddo trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch y berthynas yn y dyfodol. | | |
| **Council (Article 50) negotiating directives on the transition period**<br>29 Ionawr 2018 | Cyfarwyddebau gan y Cyngor Ewropeaidd yn egluro'r canllawiau ar gyfer trafod y cynllun pontio gyda'r DU | Dim | |
| **Slides on a Level Playing Field**<br>31 Ionawr 2018 | Cyflwyniad ar sicrhau amodau teg a chyfartal i hyrwyddo trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch y berthynas yn y dyfodol. | Dim | |
| **Slides on Services**<br>6 Chwefror 2018 | Cyflwyniad ar wasanaethau i hyrwyddo trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch y berthynas yn y dyfodol. | Dim | |
| **Slides on International Agreements and Trade Policy**<br>6 Chwefror 2018 | Cyflwyniad ar gytundebau rhyngwladol a pholisi masnach i hyrwyddo trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch y berthynas yn y dyfodol. | Dim | |
| **Position Paper on Transitional Arrangements in the Withdrawal Agreement**<br>7 Chwefror 2018 | Papur yn amlinellu'r testun cyfreithiol posibl yn ymwneud â'r cyfnod pontio, i'w gynnwys yn y Cytundeb Ymadael. | Ymateb i'r Papur Sefyllfa ar Drefniadau Pontio yn y Cytundeb Ymadael<br>21 Chwefror 2018. | Ymateb i welliannau a awgrymir i'r papur sefyllfa a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd. |
| Dim | | **Nodyn technegol ar gytundebau rhyngwladol**<br>8 Chwefror 2018 | Mae'r nodyn technegol hwn yn amlinellu gwybodaeth bellach am ymagwedd y DU at |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | | | gytundebau rhyngwladol yn ystod y cyfnod gweithredu. |
| Slides on Transport<br>21 Chwefror 2018 | Cyflwyniad ar drafnidiaeth i hyrwyddo trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch y berthynas yn y dyfodol. | Dim | |
| Slides on Mobility<br>21 Chwefror 2018 | Cyflwyniad ar symudedd i hyrwyddo trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch y berthynas yn y dyfodol. | Dim | |
| Slides on regulatory issues 21 Chwefror 2018 | Cyflwyniad ar faterion rheoleiddio i hyrwyddo trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch y berthynas yn y dyfodol. | Dim | |
| Brexit preparedness document rail transport<br>27 Chwefror 2018 | Gwybodaeth i ddinasyddion a busnesau ar oblygiadau y DU yn gadael yr UE ar drafnidiaeth rheilffyrdd. | Dim | |
| Brexit preparedness document consumer protection and passenger rights<br>27 Chwefror 2018 | Gwybodaeth i ddinasyddion a busnesau ar oblygiadau y DU yn gadael yr UE ar ddiogelwch defnyddwyr a hawliau teithwyr. | Dim | |
| Brexit preparedness document animal health and welfare<br>27 Chwefror 2018 | Gwybodaeth i ddinasyddion a busnesau ar oblygiadau y DU yn gadael yr UE ar iechyd a lles anifeiliaid. | Dim | |
| Brexit preparedness | Gwybodaeth i ddinasyddion a | Dim | |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| document maritime transport<br>27 Chwefror 2018 | busnesau ar oblygiadau y DU yn gadael yr UE ar drafnidiaeth forol. | | |
| Draft legal text on the Withdrawal Agreement<br>28 Chwefror 2018 | Erthyglau drafft a chymalau ar gyfer testun cyfreithiol i weithredu'r cytundeb a geir rhwng yr UE a'r DU ar Ymadael. | Dim | |
| European Council draft negotiation guidelines on a framework for a future partnership<br>7 Mawrth 2018 | Canllawiau a awgrymir gan y Cyngor i'r Comisiwn ar gytuno ar fframwaith ar gyfer partneriaeth yn y dyfodol rhwng yr UE a'r DU. | Dim | |
| Brexit preparedness document electronic communications<br>12 Mawrth 2018 | Gwybodaeth i ddinasyddion a busnesau ar oblygiadau ymadawiad y DU o'r UE o ran y rheolau ym maes cyfathrebiadau electronig | Dim | |
| Brexit preparedness document security networks and information systems<br>12 Mawrth 2018 | Gwybodaeth i ddinasyddion a busnesau ar oblygiadau ymadawiad y DU o'r UE o ran y rheolau ym maes rhwydweithiau diogelwch a systemau gwybodaeth. | Dim | |
| Brexit preparedness document on audiovisual media services<br>12 Mawrth 2018 | Gwybodaeth i ddinasyddion a busnesau ar oblygiadau ymadawiad y DU o'r UE o ran y rheolau ym maes y gwasanaethau cyfryngau clyweledol. | Dim | |
| Cytundeb Ymadael Drafft 19 | Mae'r Cytundeb Ymadael drafft ar | Cytundeb Ymadael Drafft 19 | Mae'r Cytundeb Ymadael drafft |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| Mawrth 2018 | 19 Mawrth 2018 yn cynnwys testun cyfreithiol y cytunwyd arno o ran y cyfnod gweithredu, hawliau dinasyddion, a'r setliad ariannol, yn ogystal â nifer sylweddol o erthyglau eraill. Nod timau negodi'r DU a'r UE yw cwblhau'r Cytundeb Ymadael yn gyfan gwbl erbyn mis Hydref. | Mawrth 2018 | ar 19 Mawrth 2018 yn cynnwys testun cyfreithiol cytunedig ar gyfer y cyfnod gweithredu, hawliau dinasyddion, a'r setliad ariannol, yn ogystal â nifer sylweddol o erthyglau eraill. Nod timau negodi'r DU a'r UE yw cwblhau'r Cytundeb Ymadael yn gyfan gwbl erbyn mis Hydref. |
| **Brexit preparedness document on illegal logging and associated trade** 21 Mawrth 2018 | Gwybodaeth i ddinasyddion a busnesau ar oblygiadau ymadawiad y DU o'r UE o ran y rheolau ym maes torri a thrin coed yn anghyfreithlon a masnach sy'n gysylltiedig â hynny. | Dim | |
| **Brexit preparedness document on EU plant health** 21 Mawrth 2018 | Gwybodaeth i ddinasyddion a busnesau ar oblygiadau ymadawiad y DU o'r UE o ran y rheolau ym maes iechyd planhigion. | Dim | |
| **Brexit preparedness document on Euratom** 23 Mawrth 2018 | Gwybodaeth i ddinasyddion a busnesau ar oblygiadau ymadawiad y DU o'r UE ar Euratom. | Dim | |
| **Canllawiau'r Cyngor Ewropeaidd (Erthygl 50) ar y fframwaith ar gyfer perthynas** | Bydd y canllawiau hyn yn gweithredu fel mandad i ddechrau trafodaethau'r UE ar y fframwaith | **Llythyr y Prif Weinidog at Fusnesau'r DU** 23 Mawrth 2018 | Esbonio elfennau sylweddol y cyfnod pontio. |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| y DU â'r UE yn y dyfodol<br>23 Mawrth 2018 | ar gyfer y berthynas yn y dyfodol, gyda'r nod o gyrraedd dealltwriaeth gyffredinol. Adlewyrchir y ddealltwriaeth honno mewn datganiad gwleidyddol sy'n cyd-fynd â'r Cytundeb Ymadael ac y cyfeirir ati ynddo. | | |
| Brexit preparedness document on EU ship recycling<br>27 Mawrth 2018 | Gwybodaeth i ddinasyddion a busnesau ar oblygiadau ymadawiad y DU o'r UE o ran y rheolau ym maes ailgylchu llongau. | Dim | |
| Brexit preparedness document on copyright<br>28 Mawrth 2018 | Gwybodaeth i ddinasyddion a busnesau ar oblygiadau ymadawiad y DU o'r UE o ran y rheolau ym maes hawlfraint. | Dim | |
| Brexit preparedness document on approval of certain vehicles and engines<br>28 Mawrth 2018 | Gwybodaeth i ddinasyddion a busnesau ar oblygiadau ymadawiad y DU o'r UE o ran y rheolau ym maes cymeradwyo cerbydau a pheiriannau penodol. | Dim | |
| Brexit preparedness document on fisheries and aquaculture<br>9 Ebrill 2018 | Gwybodaeth i ddinasyddion a busnesau ar oblygiadau ymadawiad y DU o'r UE o ran y rheolau ym maes pysgodfeydd a dyframaethu. | Dim | |

# 3. Materion allweddol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol

## Paratoi ar gyfer Brexit

Roedd **Ymateb Llywodraeth Cymru i Ddatganiad y Gwanwyn Canghellor y Trysorlys**, a gyhoeddwyd ar 12 Mawrth 2018, yn nodi

> *Heddiw, cadarnhaodd Llywodraeth y DU y byddai Cymru yn cael ychydig dros £21m o arian canlyniadol drwy Fformiwla Barnett ar gyfer 2018-19 o ganlyniad i'r £3bn a gyhoeddwyd yng Nghyllideb yr Hydref i baratoi ar gyfer Brexit.*

Mae'r ymateb llawn yn awgrymu y bydd hwn yn cyfrannu at gefnogi **Cronfa o £50 miliwn Llywodraeth Cymru i bontio o'r UE**, i gefnogi busnesau a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru i gynllunio a pharatoi ar gyfer ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

## Ffin Iwerddon / Gogledd Iwerddon

O gofio diddordeb y Pwyllgor yng ngoblygiadau gadael yr Undeb Ewropeaidd i borthladdoedd Cymru, gallai fod â diddordeb arbennig yn y mater o ffin Gogledd Iwerddon ac Iwerddon a ble y gallai unrhyw ffin ddechrau yn y pen draw.

Mae'r drafft diweddaraf o'r testun cyfreithiol o ran y Cytundeb Ymadael yn cadw ateb wrth gefn arfaethedig yr UE ar gyfer y ffin rhwng Gogledd Iwerddon ac Iwerddon. Mae'r ateb hwn wedi'i gynnwys mewn Protocol ar Iwerddon / Gogledd Iwerddon o fewn y Cytundeb Ymadael Drafft.

Mae'r Protocol yn galw am sefydlu "ardal reoleiddio gyffredin" rhwng Gogledd Iwerddon a'r UE os na cheir cytundeb arall. Byddai'r Ardal Reoleiddio Gyffredin yn galw am alinio'n llawn y rheoliadau ar nwyddau a restrir yn Atodiad 2.1 o'r Protocol ac i Ogledd Iwerddon ddilyn cod tollau yr UE. Byddai'n ofynnol, yn benodol, i sicrhau aliniad rheoleiddiol ar reolau iechydol a ffytoiechydol ar nwyddau amaethyddiaeth a physgodfeydd a restrir yn Atodiad 2.5 o'r protocol.

Nid yw'r Atodiadau wedi'u cyhoeddi eto, ac mae'r rhan fwyaf o'r testun ar y cynigion ar gyfer Ardal Reoleiddio Gyffredin yn parhau i fod yn wyn, sy'n nodi nad oes cytundeb eto. Fodd bynnag, mae'r testun yn nodi, os bydd yr ateb 'wrth gefn' yn gymwys, y byddai cytundeb gwleidyddol ar weithrediad parhaus y farchnad drydan sengl a'r angen am gydweithrediad parhaus ym meysydd yr amgylchedd, iechyd, amaethyddiaeth, trafnidiaeth, addysg, twristiaeth, ynni, telathrebu, darlledu, pysgodfeydd mewndirol, cyfiawnder a diogelwch, addysg uwch, chwaraeon a chymorth gwladwriaethol.

Rhoddodd Prif Weinidog y DU ymateb cychwynnol i'r protocol yn ystod Cwestiynau'r Prif Weinidog ar 28 Chwefror, pan ddywedodd:

> *The Foreign Secretary and I are absolutely committed to ensuring that we deliver on no hard border between Northern Ireland and Ireland…the draft legal text that the Commission has published, if implemented, would undermine the UK common market and threatens the constitutional integrity of the UK by creating a customs and regulatory border down the Irish sea. No UK Prime Minister could ever agree to it, and I will be making that absolutely clear.*

Mae trafodaethau ynglŷn ag opsiwn sy'n plesio pawb yn parhau, ac mae cyfarfod am y mater i gael ei gynnal rhwng arweinwyr y timau trafod ar 18 Ebrill.

## Y cyfnod pontio

O ran y cytundeb pontio, mae'r partïon wedi cytuno y bydd y cyfnod pontio yn para o 29 Mawrth 2019 tan fis Rhagfyr 2020. Bydd y DU yn parhau i gadw at reolau a rheoliadau'r UE yn gyfan gwbl ar gyfer y cyfnod hwnnw, gan gynnwys unrhyw reoliadau newydd a ddaw i rym yn ystod y blynyddoedd hynny. Bydd Llys Cyfiawnder Ewrop yn parhau i fod yn awdurdod cyfreithiol ar gyfer rheoliadau Ewropeaidd yn ystod y cyfnod pontio, a bydd Llysoedd y DU yn parhau i allu cyfeirio materion at Lys Cyfiawnder Ewrop yn ystod y cyfnod hwn.

Bydd gan ddinasyddion yr UE sy'n cyrraedd y DU yn ystod y cyfnod pontio hawl i'r un hawliau a gynigir i'r rheini sy'n cyrraedd cyn 29 Mawrth 2019, ac fel arall ar gyfer dinasyddion y DU sy'n cyrraedd Aelod-wladwriaeth yr UE. Bydd y DU yn parhau i gymryd rhan yn y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) a'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (CFP) tan fis Rhagfyr 2020. O ran y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, ymgynghorir â'r DU ar ddyraniad blynyddol y cwota pysgota yn ystod y cyfnod pontio, a gellid ei gwahodd i gymryd rhan mewn unrhyw ddirprwyaethau o'r UE sy'n negodi hawliau pysgota gyda gwledydd trydydd parti. Bydd y DU hefyd yn parhau i gael mynediad at yr Undeb Tollau a'r Farchnad Sengl ar yr un telerau ag sydd ganddi fel Aelod-wladwriaeth.

Bydd y DU yn cael trafod a llofnodi bargeinion masnach â gwledydd nad ydynt yn aelodau o'r UE yn ystod y cyfnod hwn, ond ni all y trefniadau hyn ddod i rym tan ar ôl mis Rhagfyr 2020. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU **nodyn technegol ar gytundebau rhyngwladol**, sy'n nodi ei dull gweithredu o ran cytundebau rhyngwladol yn ystod y cyfnod gweithredu ar 8 Chwefror 2018.

Croesawyd y cytundeb ar bontio gan y ddwy ochr yn y trafodaethau, am ddarparu rhagor o amser i ddinasyddion a busnesau baratoi ar gyfer unrhyw newidiadau i'r berthynas yn y dyfodol. Ar 23 Mawrth 2018, **ysgrifennodd y Prif Weinidog lythyr at Fusnesau'r DU**, i grynhoi llawer o elfennau sylweddol y cyfnod pontio.

## Goblygiadau Brexit i Gymru

O ran mesur effaith ymadael â'r UE ar Gymru, efallai y bydd gan y Pwyllgor ddiddordeb yn y canlynol.

Lansiodd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol ymchwiliad newydd ar **'Beth fydd yn disodli arian yr UE ar ôl Brexit?'** Bydd y Pwyllgor yn 'edrych ar ba baratoadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu gwneud ar gyfer gwahanol senarios a pha fodelau cyllido allai ddarparu'r manteision gorau posibl i Gymru,' ac mae wedi gofyn am dystiolaeth ysgrifenedig gan randdeiliaid ar y mater hwn.

Ar Fawrth 12, cyhoeddodd Pwyllgor Gwaith a Phensiynau Senedd y DU ei adroddiad ar **ddyfodol Cronfa Gymdeithasol Ewrop.** Gan fod Cymru'n fuddiolwr sylweddol o'r gronfa, efallai y bydd gan y Pwyllgor ddiddordeb i wybod mai un o bedwar o gasgliadau'r adroddiad oedd

> *the [UK] Government proceed urgently with detailed design of a successor to the European Social Fund so that there is no gap between existing and new funding streams.*

Ar 13 Mawrth, clywodd **Pwyllgor Materion Cymreig Senedd y DU dystiolaeth** gan Nicholas Perdikis, Athro Busnes Rhyngwladol ym Mhrifysgol Aberystwyth, ynghylch

> *the impact of the UK's future trade policy on the Welsh economy, the differing priorities within Welsh export sectors, the importance of imports to the Welsh economy, and how the various options for the UK's future trade policy could impact the Welsh economy as a whole.*

Roedd y sesiwn dystiolaeth hon yn rhan o ymchwiliad ehangach y Pwyllgor Materion Cymreig **ar Adael yr Undeb Ewropeaidd: Amaethyddiaeth, Masnach a Dychwelyd pwerau.**

Yn ystod y sesiwn, roedd yr Athro Perdikis yn trafod tystiolaeth o'i adroddiad ar **Fodelu Effaith Economaidd Ymadael â'r UE ar Economi Cymru**, a gyflwynodd gyntaf i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar 12 Mawrth. Lluniodd yr Athro Perdikis yr adroddiad hwn fel rhan o'i waith yn ymwneud â **Chynllun Cymrodoriaeth Academaidd Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**

## Fframweithiau ar ôl ymadael â'r UE

O gofio diddordeb y Pwyllgor mewn cysylltiadau rhynglywodraethol ar ôl ymadael â'r UE, bydd am nodi bod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei **hasesiad** dros dro o ble y bydd angen fframweithiau cyffredin ledled y DU ar ôl Brexit. Mae'r ddogfen, a gyhoeddwyd ar 9 Mawrth, yn rhestru 24 o feysydd y disgwylir y bydd angen fframweithiau deddfwriaethol arnynt. Mae'r 24 maes hyn yn cynnwys cymorth amaethyddol, cymorth a rheoli pysgodfeydd, lles anifeiliaid, plaladdwyr, labelu bwyd a diogelwch bwyd, ac iechyd planhigion. Mae'r dadansoddiad hefyd yn cynnwys 12 maes polisi y cred Llywodraeth y DU a gedwir yn ôl yn llwyr, ond sydd ar hyn o bryd yn destun 'trafodaeth barhaus' â'r llywodraethau datganoledig. Mae'r rhain yn cynnwys enwau bwyd gwarchodedig a chymorth gwladwriaethol.

Yn y cyfamser, mewn ymateb i Lywodraeth y DU yn cyhoeddi ei **dadansoddiad o'r fframweithiau cyffredin**, amlygodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, mewn **datganiad ysgrifenedig** a gyhoeddwyd ddydd Mercher 14 Mawrth, y ffaith mai dogfen Llywodraeth y DU yw hon:

> *... Nid ydym wedi cytuno iddi, ac nid yw'n cynrychioli barn Llywodraeth Cymru. Byddwn yn edrych yn fanwl ar y ddogfen ac yn gweithio gyda Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i oresgyn unrhyw wahaniaethau lle bynnag y bo modd.*

Yn ôl Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid:

> *Mae unrhyw sôn am ddatganoli "pwerau newydd sbon sylweddol" yn gamarweiniol a diwerth. Nid yw'r pwerau yn cael eu rhoi i'r Cynulliad Cenedlaethol, maent yma eisoes.*

Ychwanegodd bod y nifer cyffredinol o feysydd ym mhob grŵp yn 'ddiwerth' yn bennaf:

> *.... oherwydd bod meysydd fel 'Cymorth Amaethyddol' a 'Cymorth a rheoli Pysgodfeydd' yn llawer ehangach ac yn effeithio llawer mwy ar gymhwysedd datganoledig yng Nghymru na meysydd pwysig ond cul fel 'systemau tollau ffyrdd electronig' a 'diogelwch ac ansawdd gwaed'.*

Ar 15 Mawrth, cyhoeddodd Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad **erthygl ynglŷn â Fframweithiau ledled y DU ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd**.

Hefyd ym mis Mawrth, cyhoeddodd y corff, **rhaglen Y DU mewn Ewrop sy'n Newid** ei adroddiad ar **oblygiadau polisi rhanbarthol Brexit.** Mae'r adroddiad yn casglu:

> *together a team of experts on devolved and local government to consider not only what happened in the referendum itself, but also the debate about how Brexit should affect these sub-state layers of governance.*

Ar 9 Ebrill, cyhoeddodd **Sefydliad y Llywodraeth** adroddiad a oedd yn dangos, yn ei farn ef:

> *the devolution arrangements of the late 1990s were designed to function within membership of the EU. Outside of the EU, they are no longer fit for purpose…The report makes recommendations for how the four governments can work together now and after Brexit.*

### Canllawiau'r Cyngor Ewropeaidd ar y fframwaith ar gyfer perthynas yn y dyfodol

Fel y cyfeiriwyd ato uchod, mabwysiadodd y Cyngor Ewropeaidd **ei ganllawiau ar negodi ar gyfer datganiad gwleidyddol** ar y fframwaith ar gyfer partneriaeth rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol ar 23 Mawrth.

Yn ei ganllawiau, mae'r Cyngor Ewropeaidd yn galw am berthynas 'mor agos â phosibl' â'r DU yn y dyfodol ond mae'n nodi y cyfyngir ar y math o gytundeb sy'n bosibl gan safbwynt presennol y DU ar yr Undeb Tollau a'r Farchnad Sengl. Dywed y bydd y safbwynt hwn yn arwain at ffrithiant o ran y berthynas fasnachu. Fodd bynnag, mae paragraff 6 o'r canllawiau yn nodi, pe bai safbwynt Llywodraeth y DU ar yr Undeb Tollau a'r Farchnad Sengl yn newid, y byddai'r Cyngor yn barod i ailystyried ei gynnig ar y berthynas yn y dyfodol.

Mae'r canllawiau'n nodi y dylai perthynas yn y dyfodol gynnwys cytundebau ar fasnach a chydweithredu economaidd, ar ddiogelwch, ar bolisi amddiffyn a pholisi tramor, ar derfysgaeth a throseddu, ar ymchwil ac arloesedd, ar drafnidiaeth, gan gynnwys cytundeb ar awyrennau, ar gaffael cyhoeddus, ar newid hinsawdd a datblygu cynaliadwy, ar addysg a diwylliant, ar orfodi'r gyfraith ac ar gydweithrediad barnwrol a data personol.

Mae'r canllawiau hefyd yn datgan y dylai cytundeb masnach rydd rhwng y DU a'r UE fod yn 'uchelgeisiol' a cheisio cytuno ar dariffau sero ar yr holl nwyddau. Mae'r canllawiau hefyd yn datgan y byddai'r UE yn barod i drafod cydweithrediad o ran tollau, ond rhaid i hyn barchu 'uniondeb' yr undeb tollau. Mae paragraff 8 y cytundeb yn amlinellu awydd y Cyngor am gytundeb masnach rydd, i gynnwys cydweithrediad ar rwystrau technegol i fasnachu, ond dywed y dylai unrhyw gytundeb masnach rydd hefyd geisio cadw hawliau cyfatebol presennol mewn perthynas â mynediad i ddyfroedd pysgota.

# 4. Ymateb Llywodraeth Cymru

### Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru)

Yn dilyn y methiant mewn nifer o gyfarfodydd y Cydbwyllgor Gweinidogion (Negodi'r UE) i ddod i gytundeb ar y Bil Ymadael, penderfynodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban gyflwyno eu biliau 'parhad' eu hunain.

Ar 6 Mawrth, cytunodd Aelodau'r Cynulliad y bydd y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) yn cael ei drin fel Bil Brys a chytunwyd ar amserlen ar gyfer ei drafod. Gellir gweld canllaw i Filiau Brys, a ysgrifennwyd gan Wasanaeth Ymchwil y Cynulliad, **yma**.

Yn dilyn cytundeb y Cynulliad i drin y Bil fel deddfwriaeth frys, ar 7 Mawrth cafodd Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) ei gyflwyno'n ffurfiol gan Lywodraeth Cymru ynghyd â **Memorandwm Esboniadol** ar y Bil. Mae Crynodeb o'r Bil wedi'i baratoi gan y **Gwasanaeth Ymchwil a'r Gwasanaethau Cyfreithiol**.

Yn dilyn cyflwyno'r Bil yn ffurfiol, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ddatganiad ysgrifenedig lle dywedodd:

> *Yr opsiwn a ffefrir gennym o hyd yw gweld gwelliannau i'r Bil i Ymadael â'r UE er mwyn iddo weithredu'n deg ar gyfer y Deyrnas Unedig yn gyfan. Er ein bod yn cydweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i sicrhau'r gwelliannau hyn - ac yn wir rydym wedi symud ymlaen cryn dipyn dros yr wythnosau diwethaf - rydym eto i ddod i gytundeb.*
>
> *Dan yr amgylchiadau hyn, byddai'n anghyfrifol i ni fethu â pharatoi ar gyfer sefyllfa o weld y Cynulliad yn gwrthod rhoi cydsyniad i'r Bil i Ymadael â'r UE. Mae'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn opsiwn wrth gefn i sicrhau parhad deddfwriaethol yng Nghymru mewn ffordd sy'n parchu'r setliad datganoli. Rhaid i ni barhau i gael sicrwydd cyfreithiol i fusnesau a dinasyddion Cymru ar ôl i'r DU ymadael â'r UE – bydd y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn ffordd o ddarparu'r sicrwydd cyfreithiol hwnnw.*

Yn ôl Llywodraeth Cymru, nodau'r Bil yw:

– diogelu cyfraith yr UE yn ymwneud â meysydd datganoledig ar ôl Brexit;

– galluogi Gweinidogion Cymru i sicrhau bod deddfwriaeth sy'n trafod y pynciau hyn yn gweithio'n effeithiol ar ôl Brexit ac ar ôl i'r Bil Ymadael ddiddymu Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972;

– galluogi Gweinidogion Cymru i ddeddfu er mwyn cynnal aliniad rheoleiddiol gyda'r UE;

– sicrhau bod yn rhaid i Weinidogion Llywodraeth y DU gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o fewn cwmpas cyfraith yr UE o fewn cymhwysedd datganoledig.

Ar 12 Mawrth ystyriodd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad y Bil a gosododd ei **adroddiad,** lle gwnaed wyth argymhelliad i Lywodraeth Cymru, y diwrnod canlynol. **Cafwyd** ymateb Ysgrifennydd y Cabinet i'r adolygiad ar 15 Mawrth.

Cynhaliwyd trafodaeth ar y Bil yng Nghyfnod 1 **ar 13 Mawrth** a chytunwyd ar y cynnig i gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil, gyda 40 Aelod yn pleidleisio o blaid, 13 yn erbyn ac 1 yn ymatal.

Cynhaliwyd trafodaeth ar y Bil yng Nghyfnod 2 ym Mhwyllgor y Cynulliad Cyfan ddydd Mawrth **20 Mawrth**. Diwygiwyd y Bil yn ystod y Cyfnod Pwyllgor er mwyn:

– darparu y gellir datgymhwyso deddfiad sy'n rhannol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ac yn rhannol y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â Chymru gan Weinidogion Cymru, ac yna ei ailddatgan i'r graddau ei fod o fewn cymhwysedd y Cynulliad;

– rhoi cymal machlud ar bwerau Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth sy'n cyfateb i gyfraith yr UE ar ôl y diwrnod ymadael; ac

– yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod datganiadau ochr yn ochr â rheoliadau drafft yn nodi a ddylai'r weithdrefn ddyrchafedig fod yn gymwys, a hefyd mewn amgylchiadau pan fyddant yn ystyried y dylai'r weithdrefn frys fod yn gymwys, neu pan fo rheoliadau drafft yn addasu deddfwriaeth sylfaenol.

Cynhaliwyd ystyriaeth Cyfnod 3 **yn y Cyfarfod Llawn ar 21 Mawrth** a gwaredwyd y gwelliannau. Yn ystod Cyfnod 3, diwygiwyd y Bil i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adrodd ar arfer eu swyddogaeth ganiatâd i wneud, cymeradwyo neu gadarnhau is-ddeddfwriaeth o fewn cymhwysedd datganoledig gan Weinidogion y DU o fewn cyfnod o 60 diwrnod. Diwygiwyd y Bil hefyd i alluogi Gweinidogion Cymru i ddiddymu'r Ddeddf drwy is-ddeddfwriaeth. Yn ogystal, er gwaethaf gwrthod gwelliant arfaethedig Simon Thomas i osod egwyddorion amgylcheddol yr UE ar wyneb y Bil, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gymryd y cyfle deddfwriaethol cyntaf i ymgorffori egwyddorion amgylcheddol yn gyfraith ddomestig ac i gau'r bwlch llywodraethu.

Cynhaliwyd Cyfnod 4 y Bil yn union ar ôl diwedd Cyfnod 3. Cytunodd y Cynulliad ar y Bil gyda 39 o Aelodau yn pleidleisio o blaid, 13 yn erbyn ac 1 Aelod yn ymatal.

Mae'r **Bil, fel y'i pasiwyd**, yn awr yn y cyfnod o bedair wythnos o hysbysrwydd, lle caiff y Cwnsler Cyffredinol neu'r Twrnai Cyffredinol gyfeirio'r cwestiwn a yw'r Bil, neu unrhyw ddarpariaeth ynddo, yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, at y Goruchaf Lys am benderfyniad. Yn yr un modd, gall Ysgrifennydd Gwladol Cymru wneud gorchymyn yn gwahardd Clerc y Cynulliad rhag cyflwyno'r Bil i gael Cydsyniad Brenhinol.

Mae'r *Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru)* wedi'i ddrafftio yn wahanol i Fil Ymadael Llywodraeth y DU. Mae'r Bil Ymadael yn darparu ar gyfer diogelu corff cyfan o gyfraith Ewropeaidd, a'i drosi'n gyffredinol i gyfraith ddomestig y DU. Disgrifia hynny fel cyfraith yr UE a ddargedwir (retained EU law). Nid yw Bil Llywodraeth Cymru yn darparu ar gyfer y trosiad cyffredinol hwn. Yn hytrach, mae'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i sicrhau bod cyfraith yr UE sy'n cwmpasu pynciau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn cael eu diogelu fel rhan o'r gyfraith yng Nghymru ar ôl ymadael. Yn ogystal, mae'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru addasu cyfraith yr UE o fewn cymhwysedd datganoledig; ond yn ddarostyngedig i nifer o gyfyngiadau a fwriadwyd i gyfyngu'r newidiadau i'r hyn sydd ei angen yng ngoleuni gadael yr UE. Bydd y corff newydd o gyfraith yr UE a gaiff ei drosi gan y Bil hwn y tu allan i'r diffiniad o 'ddargadw cyfraith yr UE' yn y Bil Ymadael. O ganlyniad, ni fyddai'r cyfyngiadau ar y Cynulliad a Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag addasu cyfraith yr UE a ddargedwir – gan gynnwys y cyfyngiadau yng nghymal 11 o'r Bil Ymadael, a ddisgrifir uchod, bellach yn gymwys.

Nid yw Bil Llywodraeth Cymru yn disodli'r Bil Ymadael. Yn hytrach, bydd y Bil yn gweithredu ochr yn ochr â Bil Llywodraeth y DU. Bydd unrhyw gyfraith yr UE na chaiff ei dargadw neu ei hailddatgan mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru, er enghraifft, darpariaethau y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, yn cael ei chwmpasu gan y Bil Ymadael a'i throsi i gyfraith ddomestig fel cyfraith yr UE a ddargedwir.

Fel y crybwyllwyd uchod, mae Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru, **wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig** ar ganlyniad Cyfarfod Llawn y Cydbwyllgor Gweinidogion (JMC) a gynhaliwyd ar 19 Mawrth. Dywedodd:

*… dywedais eto bod angen i'r DU gael mynediad mor llawn â phosib at y farchnad sengl, gan gyfeirio at y berthynas sydd gan Norwy gyda'r farchnad sengl. Hefyd dywedais eto bod Llywodraeth Cymru am weld y DU yn aros o fewn Undeb Tollau gyda'r UE, yn rhannol gan y byddai hynny'n gam sylweddol tuag at ddatrys anawsterau trefniadau ffin Iwerddon yn y dyfodol (ac yn y cyd-destun hwnnw nodais yr anawsterau penodol a allai godi i Gaergybi a phorthladdoedd eraill Cymru sy'n ymdrin â masnach gydag Iwerddon pe na ellid cytuno ar drefniant boddhaol). Pwysleisiais hefyd bod angen cytuno'n gynnar ar drefniadau pontio. Yn olaf, wrth edrych tua'r dyfodol, pwysleisiais pa mor bwysig yr oedd Llywodraeth Cymru'n gweld cyfranogiad y gweinyddiaethau datganoledig gyda Llywodraeth y DU yn y negodiadau ar berthynas masnachu gyda'r UE yn y dyfodol, a pholisi masnach a negodiadau yn fwy cyffredinol. Bydd papur ar hyn yng nghyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Gweinidogion ar Negodiadau'r UE, ac fe fyddwn yn gofyn am argymhellion cadarn gan Lywodraeth y DU ar y mater hwn.*